



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

At: Bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru
Cc:
Pwyllgor Meddygon Teulu (GPC) Cymru
Llywodraeth Cymru

20 Ebrill 2026

Annwyl Gydweithwyr,

ARCHWILIAD CENEDLAETHOL DIABETES – CASGLU DATA PRACTISAU MEDDYG TEULU 2025-26

Hoffwn ofyn am eich cefnogaeth barhaus i sicrhau bod data practisau meddygon teulu ar gael ar gyfer yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol (ADC) ac i'ch hysbysu am newid yn y defnydd o ddata. Mae'r llythyr hwn yn cadarnhau'r dibenion ychwanegol y bydd data'n cael ei ddefnyddio ar eu cyfer a sut y gall Byrddau Iechyd Lleol helpu i sicrhau bod y casglu data'n rhedeg yn esmwyth.

Y camau i'w cymryd

1. Byrddau Iechyd Lleol i ysgrifennu cyn gynted â phosibl at eu practisau a reolir a chontractir i'w hysbysu am y casgliad data sydd ar ddod a'r defnydd ychwanegol o ddata. Dylai'r llythyr templed sydd ynghlwm fod yn hunanesboniadol a gellir ei ddefnyddio i gyfathrebu â phractisau.
2. Byrddau Iechyd Lleol i hysbysu Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) pan fyddant wedi ysgrifennu at feddygfeydd. Noder nad yw IGDC yn gofyn am gadarnhad bod practisau wedi ymateb i'r Byrddau Iechyd Lleol – bydd cadarnhad bod practisau wedi cael eu hysbysu yn ddigonol. Anfonwch eich cadarnhad drwy e-bost i:
dhcwinformationgovernance@wales.nhs.uk

Er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes angen i bractisau gyflwyno unrhyw ddata. Bydd IGDC yn echdynnu data gan ddefnyddio'r ateb technegol sefydledig.

Cefndir a Sail Gyfreithiol

Cyflwyno'r ADC

Mae rôl archwiliadau clinigol cenedlaethol wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd a gyflwynwyd drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 wedi'i hamlygu yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar y ddyletswydd ansawdd a safonau ansawdd¹. Mae'r ADC yn rhan o Gynllun Archwilio

¹ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2022-10/the-duty-of-quality-statutory-guidance-2023-and-quality-standards-2023.pdf>

02920 500 500

igdc.gig.cymru | dhcw.nhs.wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau (NCAORP) GIG Cymru², sy'n gosod y disgwyliad ynghylch cyfranogiad, yn cadarnhau'r cysylltiad â gwella ansawdd ac yn gofyn i sefydliadau archwilio ffyrdd o ddefnyddio data.

O dan adran 255(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012³, gwnaed cais ffurfiol gan GIG Cymru i NHS Digital (y trosglwyddwyd ei swyddogaethau i NHSE⁴) i gyflawni'r ADC, rhywbeth y mae wedi'i wneud ers nifer o flynyddoedd. Yn unol â'i swyddogaethau statudol fel Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae IGDC yn derbyn darnau data perthnasol o systemau meddygon teulu ac yn eu darparu i'r GIG. Mae hon yn broses sefydledig sy'n cael ei hategu gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023⁵, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bractisau meddygon teulu ganiatáu i IGDC gael mynediad at ddata at ddibenion yr NCAORP, a phractisau i gynhyrchu neu ganiatáu mynediad at unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol yn rhesymol mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd Lleol⁶.

I grynhoi, er mwyn cefnogi cyflawni'r ADC, mae Byrddau Iechyd Lleol yn ysgrifennu at feddygfeydd teulu i'w hysbysu am y casgliad data, mae IGDC yn trefnu echdynnu'r data perthnasol o systemau TG meddygfeydd teulu ac yn ei drosglwyddo'n ddiogel i GIG Lloegr.

Defnyddiau data eraill

Mae 'dychwelyd' data ADC (gan gynnwys data a dynnwyd o feddygfeydd teulu yng Nghymru) a gedwir gan GIG Lloegr i Gymru yn gyson â'r rolau a'r cyfrifoldebau a sefydlwyd gan yr NCAORP a Chylchlythyr Iechyd Cymru 2022/005⁷, sy'n cadarnhau ymrwymiad i Egwyddorion Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werthoedd wedi'u gyrru gan ddull gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata.

Mae arweinwyr clinigol ar gyfer Rhwydwaith Diabetes yng Nghymru, gan weithio gydag a chefnogi gan y Rhaglen Gwerth mewn Iechyd, wedi nodi cyfleoedd i ail-wladoli data a gedwir gan GIG Lloegr i fynd i'r afael ag achosion defnydd penodol (gweler Atodiad A). Cefnogir yr achosion defnydd gan Grŵp Llywodraethu'r Gwasanaeth Ansawdd Data (DQS), sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Bwrdd Iechyd Lleol a GPC Cymru.

² <https://www.llyw.cymru/cynllun-archwiliadau-clinigol-cenedlaethol-ac-adolygu-canlyniadau-gig-cymru-2025-i-2026.html>

³ <https://digital.nhs.uk/about-nhs-digital/corporate-information-and-documents/directions-and-data-provision-notices/nhs-wales-directions/section-255-health-and-social-care-act-2012-national-diabetes-audit-for-nhs-wales-2021>

⁴ Trosglwyddwyd swyddogaethau statudol NHS Digital i GOIG Lloegr o dan Reoliadau Canolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau, Diddymu a Darpariaethau Pontio) 2023 (Rheoliadau Trosglwyddo)

⁵ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023

⁶ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023

⁷ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/canolfan-gwerth-mewn-iechyd-cymru-gofynion-data.pdf>

02920 500 500

igdc.gig.cymru | dhcw.nhs.wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

Yn unol â'i swyddogaethau statudol a'r cyfarwyddyd yn yr NCAORP i nodi cyfleoedd rhannu data i gefnogi clinigwyr, rhwydweithiau a Byrddau Iechyd Lleol, o 2025-26 ymlaen bydd IGDC yn derbyn data gan GIG Lloegr (ac felly bydd yn dod yn rheolwr y data hwnnw), yn cynnal dadansoddiad ar ran y Rhaglen Gwerth mewn Iechyd (a gynhelir gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru), a fydd yn derbyn allbynnau data cryno, dienw. Bydd y Rhaglen Gwerth mewn Iechyd yn adrodd i Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru. Bydd data yn cael ei brosesu at y dibenion a nodir yn Atodiad A, gydag unrhyw ddefnyddiau arfaethedig ychwanegol yn cael eu cyflwyno i Grŵp Llywodraethu DQS.

Amserlenni

Archwiliad Diabetes Cenedlaethol

Bydd IGDC yn casglu'r data o systemau TG meddygon teulu ym mis Gorffennaf 2026.

Dychwelyd data

Mae hyn yn dibynnu ar dderbyn data wedi'i goladu gan GIG Lloegr, a ragwelir y bydd hynny'n ddiweddarach yn 2026 neu'n gynnar yn 2027.

Manteision

Mae cymryd rhan yn yr ADC a'r dadansoddiad pellach o ddata a ddarperir gan GIG Lloegr yn rhoi cyfle i gynllunio gofal diabetes mewn ymateb i anghenion lleol ac i gymharu perfformiad lleol â pherfformiad sefydliadau tebyg.

Mae'r manteision i'r Byrddau Iechyd yn cynnwys:

- Cefnogaeth i agenda datblygu clwstwr: Gall data lywio mentrau cymunedol ar lefel clwstwr a mentrau cymunedol eraill
- Cydweddu â gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd: Galluogi monitro canlyniadau a defnydd adnoddau i gefnogi gofal cynaliadwy o werth uchel
- Rheoli iechyd y boblogaeth Galluogi Byrddau Iechyd i nodi carfannau risg uchel, targedu ymyriadau, a dyrannu adnoddau'n effeithiol
- Cynllunio gwasanaeth: Cefnogi ailgynllunio llwybrau, lleihau amrywiad diangen, a llywio penderfyniadau comisiynu

Pam mae angen data adnabyddadwy cleifion?

Mae'r archwiliad yn casglu'r data adnabyddadwy canlynol: Rhif GIG, cod post, rhyw, dyddiad geni, cod practis meddyg teulu. Defnyddir y meysydd hyn i gysylltu cofnodion lluosog ar draws y llwybr gofal i resymoli cofnodion dyblyg, i ddeall cyfraddau cymhlethdod ac i gysylltu â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ganfod cyfraddau marwolaethau. Defnyddir data adnabyddadwy cleifion hefyd i ddilysu'r rhif GIG ond ni chesglir unrhyw enwau unigol.

Ar ôl cysylltu'r data, defnyddir cyn lleied o ddata adnabyddadwy ag sydd wir ei angen mewn dadansoddiad dilynol. Er enghraifft, mae cod post yn cael ei drosi i Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) i gyfrifo cwintelau amddifadedd. Defnyddir codau practisau meddygon teulu i wahaniaethu rhwng cyflwyniadau data gan wahanol

02920 500 500

igdc.gig.cymru | dhcw.nhs.wales



Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

bractisau ac i grwpio carfannau cleifion, ar gyfer y practis hwnnw neu'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw. Mae dadansoddwyr IGDC yn cyrchu golygfeydd penodol i brosiectau sydd wedi'u ffug-nodi. Mae mynediad dros dro i feysydd adnabyddadwy cyfyngedig wedi'i alluogi ar gyfer gweithrediadau cysylltu rheoledig yn unig, a gyflawnir gan beirianwyr data IGDC, gan ddefnyddio cyfrifon gwasanaeth a llwybrau archwilio cymeradwy. Ni chaniateir unrhyw gysylltiadau ychwanegol, heblaw am y rhai a gwmpesir yn y llythyr hwn, heb gymeradwyaeth ffurfiol gan Grŵp Llywodraethu DQS.

Bydd y risg o ail-adnabod mewn data a rennir gyda GIG Cymru yn cael ei lliniaru drwy atal niferoedd bach, crynhoi a dulliau rheoli datgelu ystadegol.

Cyfrinachedd a diogelwch

Mae IGDC a NHSE yn gyfrifol am sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu cyfrinachedd a chywirdeb y data a gesglir a'i ddadansoddi at ddibenion yr ADC. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data a chyfraith gyffredin.

Pa ddadansoddiadau sydd ar gael?

Dylid cyhoeddi canlyniadau'r ADC ddiwedd 2026 neu ddechrau 2027. Mae modd gweld y cyhoeddiadau diweddaraf yma:

<https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/national-diabetes-audit/report-1-cp-and-tt-data-release-2024-25/nda-report-1-cp-and-tt-data-release-2024-25>

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol, bydd GIG Lloegr yn darparu data practis cyfanredol i IGDC a fydd yn cael ei ddadansoddi wedyn a'i gyflwyno yn y Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol i alluogi practisau i weld eu data eu hunain a chymharu yn erbyn eu clwstwr, Bwrdd Iechyd Lleol a sefyllfa Cymru gyfan. Bydd GIG Lloegr hefyd yn darparu'r data sydd ganddo am gleifion o Gymru i IGDC er mwyn caniatáu'r dadansoddiad at y dibenion a amlinellir yn Atodiad A.

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth. Anfonwch unrhyw ymholiadau i dhcwinformationgovernance@wales.nhs.uk

Yr eiddoch yn gywir,

Yr Athro Rhidian Hurle.

MBBCh, MRCS, MD, FRCS (Urol), PGDip MedEd, MSc Iechyd Digidol, FFCI

Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol Cymru

Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru

02920 500 500

igdc.gig.cymru | dhcw.nhs.wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

Atodiad A – achos defnydd ar gyfer data a ddychwelwyd

Math o ddadansoddiad	Disgrifiad
Anghydraddoldebau	Asesu cydymffurfiaeth yr 8 broses gofal ar gyfer y boblogaeth ganlynol ar lefel y practis, y clwstwr, y BI a chenedlaethol: • Oedran • Rhyw • Cwintel amddifadedd • Ethnigrwydd • Math o ddiabetes
Anghydraddoldebau	Asesu cydymffurfiaeth â'r 3 tharged triniaeth ar gyfer y boblogaeth ganlynol ar lefel y practis, y clwstwr, y byrddau iechyd a chenedlaethol: • Oedran • Rhyw • Cwintel amddifadedd • Ethnigrwydd • Math o ddiabetes
Lleihau niwed	Cysylltu cleifion ADC â data gweithgaredd a chanlyniadau gofal eilaidd i archwilio amrywiadau yn y canlynol: • Derbyniadau • Hyd yr arhosiad • Dialysis • Cymhlethdodau: ○ Clefyd yr Arennau Cyfnod Terfynol ○ Trychiadau ○ Colli golwg
Atal	Cysylltu cleifion ADC â rhestr cleifion DESW (Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru) i nodi bylchau a sicrhau bod pob claf diabetig yn cael gwahoddiad i sgrinio llygaid
Gwella Ansawdd	Cysylltu â setiau data WISDM (System Wybodaeth Cymru ar gyfer Rheoli Diabetes) i ddeall y gorgyffwrdd/bylchau rhwng cyflawni prosesau gofal sylfaenol ac eilaidd 8 ac i weithio gyda

02920 500 500

igdc.gig.cymru | dhcw.nhs.wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

	Byrddau Iechyd i wella cydymffurfiaeth adrodd ADC prosesau gofal eilaidd
Wedi'i adrodd gan y claf	Cysylltu data ADC â set ddata PaRIS (Arolwg Dangosyddion a Adroddwyd gan Gleifion) i nodi cleifion diabetig math 1 a math 2, gan ddarparu gwell dealltwriaeth o ganlyniadau a phrofiadau cleifion diabetig sy'n oedolion yng Nghymru.